



## Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

20.12.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,  
*Dear Parent / Guardian,*

Diwedd tymor - er yn dymor hir mae wedi gwibio heibio. Dymunwn Nadolig Llawen iawn i chi gyd ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu'n ôl yn 2025!

**Cofiwch fod dydd Llun yn Ddydd Llun, 6ed o Ionawr yn ddiwrnod Hyfforddiant mewn Swydd.**

*End of another term - and although a very long term it's flown by. We would like to wish you all a Merry Christmas and we look forward to welcoming you back in 2025.*

**Remember - Monday 6th of January is an inset day.**

**Wythnos Blwyddyn Newydd ar draws y byd / New Years Celebrations around the world Week**

Byddwn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr i ddysgu am draddodiadau Blwyddyn Newydd ar draws y byd. Bydd pob dosbarth yn dysgu am wledydd gwahanol - o Gymru i Ffrainc ac o Frasil i China. Ar **brynhawn dydd Gwener, y 10fed o Ionawr** bydd croeso i chi rieni ddod i weld stondinau a fydd yn dathlu gwaith y disgyblion gydol yr wythnos. Byddwch yn gallu crwydro'r stondinau gydag eich plant er mwyn trafod yr hyn maen nhw wedi dysgu.

**Rhieni dan 7 / Under 7's Parents** - o 3 o'r gloch.

**Rhieni dros 7 / Over 7's Parents** - o 3.30 yp.

*We will be returning to school to learn about new year's traditions around the world. Every class will be learning about different countries - from Wales to France and from Brazil to China. On Friday, 10th of January, we will be inviting you as families to enjoy an international fair in the hall. In the fair*



*you will be able to get a taste of what the children have been learning. You can take your children around with you to discuss the different countries.*

**Rhieni dan 7 / Under 7's Parents** - from 3 o'clock

**Rhieni dros 7 / Over 7's Parents** - from 3.30pm

## **Profiadau Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 / Reception, Year 1 and 2 Experiences**

Aeth y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 i weld Sioe Nadolig Cyw'r wythnos hon, roedden nhw wrth eu boddau yn canu a dawnsio gyda'r cymeriadau. Wythnos diwethaf, mwynheuodd blwyddyn 1 a 2 sioe Yr Hugan Fach Goch yn Theatr y Sherman.

*Reception Class and year 1 went to see the Cyw Christmas show this week, they were in their element singing and dancing with the characters. Last week, years 1 and 2 enjoyed the Christmas show, Yr Hugan Fach Goch (Little Red Riding Hood) at the Sherman.*

## **Blwyddyn 5: Gweithdai Drama Rhodri Trefor**

Daeth Rhodri Trefor i'r ysgol i gynnal gweithdy drama gyda disgyblion blwyddyn 5. Ar y cyd gyda Rhodri (sy'n actor adnabyddus ar S4C), perfformiodd y disgyblion sgript a oedd wedi ei ysgrifennu yn arbennig ar ein cyfer ni am Gynhesu Byd Eang. Roedden nhw'n ymarfer symud yn effeithiol, creu siapiau a delweddau gyda'u cyrff a chyflwyno sgript yn glir. Mae ein diolch yn fawr i Rhodri am ei frwdfrydedd a'i ddawn.

*Rhodri Trefor came into school to hold an acting workshop with our year 5 pupils. The pupils performed a script that had been written especially for the school by Rhodri (who is a well-known actor on S4C) around Global Warming. They explored movement, creating images with their bodies and presenting a script clearly and effectively. We would like to send Rhodri a big thank you for his time and expertise.*

## **Stondin Gacennau Blwyddyn 1 / Year 1 Cake Stall**

Mae blwyddyn 1 wedi bod yn hynod o brysur yr wythnos hon yn cwblhau her entrepreneuriaidd. Fe wnaethon nhw greu stondin gacennau - roedd rhaid ymweld â Lidl i brynu'r cynhwysion, creu posteri, dilyn ryseitiau a choginio amrywiol fisgedi / cacennau cyn gwerthu'r cyfan yn y neuadd ddoe. Mae'r arian yn mynd tuag at greu Stondin Saer Coed (i gwblhau gweithgareddau pren Dylunio a Thechnoleg) yn y dosbarth. Roedd pob un wrth eu boddau yn paratoi ac yn werthwyr heb eu hail!

*Year 1 have been very busy this week completing an entrepreneurial challenge. They created a cake stall - they had to go to Lidl to shop for the ingredients, they designed posters, followed recipes and cooked a variety of biscuits and cakes. Yesterday, they held a cake stall in the hall. The money will be going towards a Carpentry station in our under 7's area where they will be developing their Design and Technology skills. All pupils were in their element and showed excellent selling and money skills.*

## **Ffair Nadolig / Christmas Fair**



Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r Ffair Nadolig eleni. Roedd yr ysgol yn orlawn ac roedd bwrlwm yn gorlifo rhwng y neuadd fach a'r neuadd Fawr. Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr a drefnodd y stondinau, y gwobrau a'r hwyl! Mae ein diolch yn fawr.

*Diolch to everyone who supported the Christmas Fair this year. The school was filled with our community and the Christmas cheer extended from the little hall to the big hall. We would like to share our thanks with all the volunteers who organised the stalls, the prizes and the fun. Diolch yn fawr!*

## Gwasanaeth Nadolig dros 7 / Over 7's Christmas Service


Cafon ni wledd i'r llygaid a'n clustiau fore Mercher wrth i deuluoedd disgyblion dros 7 oed yr ysgol ymgynnull yn y Gadeirlan am wledd o ddarlleniadau a charolau. Llongyfarchiadau fil i'r disgyblion a'r staff am eu hymdrech a'u llwyddiant. Roedd hud y Nadolig yn byrlymu gydol y gwasanaeth.

*On Wednesday morning, we had an excellent Christmas service at the Cathedral. Years 3, 4, 5 and 6 performed various carols and readings and they filled the place with the joy of Christmas. Congratulations to the pupils and the staff for their effort and success.*

## Clybiau / Clubs

	Dydd Mercher Wednesday	Dydd Iau Thursday	Dydd Gwener Friday
<b>12.45 - 13.15</b>			<b><u>B13-6</u></b> Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club  <a href="#">archebu lle / book a place</a>
<b>3.30 - 4.30</b>	<i>Dancefit</i>	<b>Code Club</b> Aelodau yn unig / members only  <b><u>3.30 - 4.30</u></b> Pêl-droed / Rygbi Football / Rugby	

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda / *Merry Christmas and a Happy New Year,*



# Siwan Dafydd

<b>Mis Rhagfyr</b> <b>Sialens Siarter Iaith y Teulu</b> <i>Language Charter Family Target</i>	<b>Mis Rhagfyr</b> <b>Proc i'r Cof Diogelwch ar y We</b> <i>Internet Safety Tip</i>	<b>Mis Rhagfyr</b> <b>Hawliau Plant</b> <i>Children's Rights</i>
<p>Ysgrifennwch eich cardiau Nadolig yn Gymraeg.</p> <p><i>Write your Christmas cards in Welsh.</i></p> <p>Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda (<i>Merry Christmas and Haooy New Year</i>)            Oddi Wrth (<i>from</i>)            Annwyl (<i>dear</i>)</p>	<p>Byddwch yn ofalus wrth siopa Nadolig. Peidiwch gwasgu unrhyw ddolenni dydych chi ddim yn eu hadnabod.</p> <p><i>Be careful if you're Christmas show online. Don't press any hyperlinks that you don't recognise.</i></p>	<p>Eich hawl i dderbyn gofal os nad ydych yn gallu byw â'ch teulu eich hun.</p> <p><i>You should be looked after properly if you can't live with your own family.</i></p>

## Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

**Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers:** Siwan Dafydd ac Aled Thomas  
**Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor:** Emma Simpkins

[Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information](#)

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)



[Gwaith cartref / Home Work](#)

[bit.ly/gwaithcartrefPC](https://bit.ly/gwaithcartrefPC)

## DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

**Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser**  
**Here are key dates and more information will be shared nearer the time**

Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event
6.1.25	Diwrnod HMS / Inset Day
7.1.25	Disgyblion nôl yn yr ysgol Pupils back in school



[ysgolpencae@caerdydd.gov.uk](mailto:ysgolpencae@caerdydd.gov.uk)



[ysgolpencae](#)



[www.ysgolpencae.cymru](http://www.ysgolpencae.cymru)



02920 563 851

10.1.25	Ffair Rhynglwadol yn y Neuadd International Fair in the Hall
3.2.25	Diwrnod HMS / Inset Day
13.2.25	Eisteddfod Offerynnol yr Urdd Urdd Instrumental Eisteddfod
24.2.25 - 28.2.25	Hanner Tymor / Half Term
11.3.25 + 12.3.25	Nosweithiau Rhieni (wyneb i wyneb) Parents Evening (face to face)
13.3.25	Eisteddfod Ddawns yr Urdd Dance Eisteddfod
17.3.25 - 21.3.24	<b>BI5:</b> Gwersi Seiclo Cycling Lessons
9.4.25 - 11.4.25	<b>BI4:</b> Maes y Fron - taliadau ar agor ar ParentPay Call of the Wild - payments open on ParentPay
11.4.24	Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term <b>14.4.25 - 25.4.25:</b> Gwyliau Pasg / Easter Holiday
26.5.25 - 30.5.25	Hanner Tymor / Half Term
2.6.24 - 3.6.24	<b>BI3:</b> Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys
9.6.25 - 20.6.25	<b>BI3:</b> Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i>
18.7.25	Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term <b>2.30pm:</b> Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly
21.7.25	Diwrnod HMS / Inset Day

